

# Hysbysiad Preifatrwydd Coleg Gŵyr Abertawe

## Gwybodaeth i Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ei gofrestru fel rheolwr data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, yn cryfhau'r hawliau sydd gan unigolion dros eu data, a gesglir ac a brosesir gan sefydliadau.

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio sut mae Coleg Gŵyr Abertawe ('y Coleg') yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn aelod o Fwrdd y Gorfforaeth ('llywodraethwr'). Mae hefyd yn disgrifio pa mor hir y cedwir yr wybodaeth honno a'r amgylchiadau pan allem ei datgelu i drydydd parti.

### Gwybodaeth Bersonol a gadwn amdano

Mae'r wybodaeth bersonol a gadwn yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost
- Eich dyddiad geni a'ch statws preswyllo treth (ar gyfer y banc)
- Eich cofnod ar y Gofrestr Fuddiannau
- Gwybodaeth am eich presenoldeb mewn cyfarfodydd a gohebiaeth ar e-bost ac ar bapur yn ymwneud â'r presenoldeb hwnnw
- Gwybodaeth am eich cymhwysra i fod yn llywodraethwr
- Llun
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi rydych wedi'u mynychu yn rhinwedd eich rôl fel llywodraethwr
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau eraill rydych wedi'u mynychu
- Gwybodaeth monitro cydraddoldeb (os darperir)
- Eich manylion bwnc (os darperir, ar gyfer talu treuliau)

### Y pwrpas y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth a sut y byddwn yn ei defnyddio

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i redeg coleg, cyflawni'r dasg gyhoeddus o addysgu ac, er buddiannau dilys, mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r Coleg.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn rhoi modd i'r Coleg:

- gysylltu â chi ynghylch materuion llywodraethu, gan gynnwys darparu gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau eraill
- cwblhau'r Gofrestr Fuddiannau gyda gwybodaeth am eich cyflogaeth, eich aelodaeth o gyrff a chwmnïau eraill, i adnabod achosion o wrthdaro buddiannau posibl
- cynnwys eich gwybodaeth am bresenoldeb mewn cyfarfodydd i ddarparu cofnod cyflawn a hanesyddol o'r penderfyniadau a wnaed
- darparu llun sy'n hygyrch i staff a myfyrwyr i gadarnhau pwy ydych er dibenion diogelwch
- cadarnhau eich bod yn gymwys i fod yn llywodraethwr
- cadarnhau eich bod wedi dilyn hyfforddiant (PREVENT a Diogelu) statudol a hyfforddiant arall sy'n angenrheidiol i chi gyflawni'ch rôl
- darparu gwybodaeth cydraddoldeb a sicrhau Bwrdd amrywiol
- eich gwahodd i ddigwyddiadau Coleg a allai fod o ddiddordeb i chi yn eich rôl fel llywodraethwr
- talu'ch treuliau mewn ffordd gyfleus

### **Gyda phwy rydym yn rhannu'ch data?**

Byddwn yn rhannu rhai o'ch manylion personol, eich cyfeiriad e-bost, eich cyfeiriad cartref a'ch rhif ffôn â gweithwyr yn y Coleg i weinyddu materion llywodraethu'n effeithlon, er enghraifft, rhoi gwybodaeth a gwahoddiadau i chi i gyfarfodydd, hyfforddiant a digwyddiadau. Mae rhywfaint o'ch gwybodaeth megis eich manylion banc yn cael ei rhoi i'r swyddfa gyllid i ganiatáu i'r Coleg dalu'ch treuliau. Caiff rhywfaint o'ch gwybodaeth ei chyhoeddi ar y tudalennau llywodraethu ar wefan y Coleg.

### **Sut rydym yn cadw gwybodaeth a pha mor hir rydym yn ei chadw**

Mae Clerc y Gorfforaeth yn cadw data personol llywodraethu yn ddiogel yn y swyddfa, ac mae ar gael drwy gerdyn allwedd, mewn cypyrddau a droriau dan glo.

Cedwir y data am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir uchod ac yn unol â'r amserlen gadw isod:

Gwybodaeth am geisiadau gan Lywodraethwyr: Llwyddiannus - tan ddiwedd tymor y swydd a blwyddyn arall. Aflwyddiannus - am chwe mis ar ôl i'r cais gael ei benderfynu.

Gwybodaeth bersonol y llywodraethwr (enw, rhif ffôn, cyfeiriad, manylion banc, llun, digwyddiadau hyfforddi a fynychwyd, datganiadau o ddiddordeb): tan ddiwedd tymor y swydd, wedi'i diweddar'u'n flynyddol, a blwyddyn arall.

Cofnodion Bwrdd y Gorfforaeth a chyfarfodydd Pwyllgor cysylltiedig – am hyd bywyd y sefydliad.

## **Eich hawliau a'ch dewisiadau**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych yr hawl i:

- gael mynediad i'r data personol y mae'r Coleg yn ei chadw amdanoch;
- gofyn i'r Coleg gywiro data anghywir;
- gwrthwynebu prosesu ar seiliau sy'n gysylltiedig â'ch sefyllfa benodol (mewn rhai amgylchiadau);
- cyfyngu prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i ddileu'ch data (mewn rhai amgylchiadau)
- gwneud cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Er ein bod yn ceisio sicrhau bod y data a gadwn yn gywir, rhowch wybod i ni os oes gennych newidiadau i'ch data personol, e.e. cyfeiriad, rhif ffôn ac ati.

Mae Polisi Diogelu Data y Coleg ar gael ar wefan y Coleg.

## **Manylion Cyswllt**

Os hoffech gael eglurhad pellach ar ddeddfwriaeth diogelu data (Deddf Diogelu Data 2018 neu GDPR) neu hoffech gael mynediad i'r data y mae'r Coleg yn ei gadw amdanoch, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data: [dpo@coleggwyrabertawe.ac.uk](mailto:dpo@coleggwyrabertawe.ac.uk)

Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth i'w gweld yn [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)